

# **Cynllun Argyfwng Swyddfeydd Caledfryn (Byr) 22-11-15**

# Cynllun Argyfwng Swyddfeydd Caledfryn (Byr) 22-11-15

## Cynnwys

Cynnwys	2
Cynllun Argyfwng Tân	3
Rhagarweiniad	3
Camau Gweithredu mewn Argyfwng Tân	4
Gall unrhyw un sy'n darganfod tân gymryd camau gweithredu	4
Rhybudd Larwm Tân	4
Cadarnhau'r Tân	4
Cysylltu â'r Gwasanaethau Brys	4
Gwagio'r Adeilad mewn achos o Dân (Holl Staff)	5
Camau Gweithredu mewn Argyfwng Tân - Trefniadau	5
Tîm Diogelwch Tân yr Adeilad	5
Mae Tîm Diogelwch Tân yr Adeilad yn cynnwys	5
Rôl yr 'Unigolyn sy'n Gyfrifol'	5
Yr Unigolyn sy'n Gyfrifol - Camau Gweithredu mewn Argyfwng	6
Rheolwyr y Dderbynfa / Uwch Aelod o staff -	7
Wardeiniaid Tân	7
Holl staff	8
Swyddogion Cymorth Cyntaf	8
Cynlluniau wrth gefn	8
Gwagio'r Adeilad Ymhellach	8
Digwyddiad mawr	9
Cyflenwad Pŵer yn methu	9
Trefniadau Tân Cyffredinol	9
System Darganfod Tân a Larymau Tân	9
System Goleuadau Brys	9
Trefniadau ar gyfer atal tân:	10
Dulliau Gwagio'r Adeilad a Llwybrau Gadael yr Adeilad	10
Cynllun Personol Gadael Mewn Argyfwng (PEEP)	10
Man Ymgynnull Brys:	11
Trefniadau ar gyfer diffodd tân:	11
Dyluniadau o'r cyfleuster:	11
Pwyntiau ynysu nwy, trydan, dŵr	11
Manylion Cyswllt Cynllun Parhad Mewn Argyfwng	12
RHIFAU / GWYBODAETH GYSWLLT MEWN ARGYFWNG	12
CWMNIAU CYFLEUSTODAU / ALLANOL	12
RHIFAU CYNGOR SIR DDINBYCH MEWN ARGYFWNG	12

# Cynllun Argyfwng Swyddfeydd Caledfryn (Byr) 22-11-15

## Cynllun Argyfwng Tân

Enw Cyfleuster:	Caledfryn, Dinbych (UPRN 0925-000)
Cyfeiriad:	Ffordd y Ffair, Dinbych. LL16 3RJ
Rhif ffôn:	Rhif Cyffredinol Cyngor Sir Ddinbych: 01824-706000 Rhif ffôn Cyngor Sir Ddinbych y tu allan i oriau: 0300-123-0368
Unigolyn cyfrifol:	Rheolwr Cyfleusterau Cyngor Sir Ddinbych: 07810 758978
Deiliaid Allwedd:	David Joe McCooole: 07748 148238
	Denis Newe: 07733 012426
	John Dickson: 07810 758978
Cynllun wedi'i baratoi gan:	John Dickson 04-08-2019, Adolygwyd 15-11-2022 ( <i>Dyddiad adolygu 15-11-2023</i> )
Deiliadaeth Arferol:	Hyd at 300 o bobl (Cyfyngedig oherwydd cyfyngiadau Covid) Staff Parhaol, Ymwelwyr, Rhannu Desg / Gweithwyr Hyblyg
Oriau gweithredu:	Mae'r adeilad ar agor i staff Cyngor Sir Ddinbych rhwng 07:00-19:00 ddydd Llun i ddydd Iau a 07:00-18:30 ar ddydd Gwener. Mae'r adeilad ar agor i staff BIPBC rhwng 07:00-20:00 ddydd Llun i ddydd Gwener a 09:00 - 16:00 dydd Sadwrn a dydd Sul.

## Rhagarweiniad

Dyma'r cynllun argyfwng tân ar gyfer Swyddfeydd Caledfryn, Dinbych. Gellir defnyddio'r cynllun hwn ar gyfer unrhyw argyfwng sy'n gofyn am wagio'r adeilad, megis tân, ffrwydrad, gollyngiad nwy, difrod i adeilad ayb.

Gall yr **Unigolyn sy'n Gyfrifol** fod yn unrhyw aelod hyfforddedig o Dîm Diogelwch Tân yr Adeilad sydd ar y safle yn ystod argyfwng (Rheolwr Cyfleusterau, Gofalwr, Rheolwr Llawr, Warden Tân ayb.)

Mae'r cynllun mewn argyfwng yn cael ei weithredu'n syth ar ôl i larymau tân ganu, rhybuddion larwm tân ar lafar (megis gweiddi 'tân') neu unrhyw gyfarwyddiadau eraill a roddir gan yr **Unigolyn sy'n Gyfrifol**.

## Cynllun Argyfwng Swyddfeydd Caledfryn (Byr) 22-11-15

Mae'r strategaeth gwagio'r adeilad oherwydd tân yn gofyn bod yr holl unigolion yn mynd allan o'r adeilad ar unwaith ac ar yr un pryd.

Bydd yr holl staff (gan gynnwys staff newydd, dros dro, gweithwyr hyblyg/rhannu desg) yn gyfarwydd â'r cynllun ac yn derbyn gwybodaeth, cyfarwyddyd a hyfforddiant addas.

### Camau Gweithredu mewn Argyfwng Tân

#### Gall unrhyw un sy'n darganfod tân gymryd camau gweithredu

Dylai unrhyw un sy'n darganfod tân seinio'r larwm trwy weithredu'r larwm tân eu hunain a thrwy roi gwybod i gydweithwyr trwy ddefnyddio rhybuddion llafar. e.e. gweiddi 'Tân', "ewch allan o'r adeilad" ac ati,

#### Rhybudd Larwm Tân

Mae system synhwyro a larwm tân awtomatig yn y cyfleuster hwn. Os bydd unrhyw synwryddion electronig yn synhwyro gwres neu fwg (neu pan fo rhywun wedi canu'r larwm tân eu hunain) bydd y system rhybudd larwm tân yn cael ei ganu i roi larymau clywadwy a gweledol.

Mae'r larwm rhybuddio am dân yn y cyfleuster hwn yn sŵn dau-dôn uchel, dro ar ôl tro.

Pan fydd y larwm tân wedi canu **NI** fydd y system larwm yn cael ei hailosod gan unrhyw unigolyn ac eithrio aelod o staff Cyfleusterau.

#### Cadarnhau'r Tân

Os bydd y larwm tân yn cael ei ganu, bydd yr **Unigolyn sy'n Gyfrifol** (neu ddirprwy a neilltuwyd) yn archwilio lleoliad y tân a nodwyd i gadarnhau a yw'r digwyddiad yn dân go iawn neu'n gamrybudd.

Sylwer: Ni fydd y Gwasanaeth Tân yn dod i'r safle nes bod y tân wedi'i gadarnhau gan ddeiliad allwedd neu unigolion cyfrifol arall ar y safle.

#### Cysylltu â'r Gwasanaethau Brys

Os nodir arwyddion o dân (fflamau, mwg, arogl llosgi, gwres sylweddol) bydd yr **Unigolyn sy'n Gyfrifol** yn ffonio 999 i ofyn am gymorth y Gwasanaeth Tân.

# Cynllun Argyfwng Swyddfeydd Caledfryn (Byr) 22-11-15

## Gwagio'r Adeilad mewn achos o Dân (Holl Staff)

Os bydd y larwm tân yn cael ei ganu, mae'r holl staff, ymwelwyr a chontractwyr yn cael cyfarwyddyd i wagio'r adeilad trwy'r allanfa dân diogel agosaf at y man ymgynnull yn y maes parcio cefn ac aros am gyfarwyddiadau pellach.

Bydd aelodau o staff sydd wedi'u henwebu'n cynorthwyo unigolion ag anableddau a / neu broblemau symudedd i adael yr adeilad. Cofnodir manylion yn y cynllun personol gadael mewn argyfwng.

Rhaid i bob unigolyn aros yn y man ymgynnull hyd nes ceir cyfarwyddiadau pellach gan yr Unigolyn sy'n gyfrifol. Ni ddylai neb fynd yn ôl i mewn i'r adeilad nes ceir gwybod ei bod yn ddiogel.

Bydd yr holl staff, ymwelwyr a chontractwyr yn cael gwybod am weithdrefnau gadael a ffyrdd gadael a drysau tân.

## Camau Gweithredu mewn Argyfwng Tân - Trefniadau

### Tîm Diogelwch Tân yr Adeilad

#### Mae Tîm Diogelwch Tân yr Adeilad yn cynnwys

- Tîm Rheoli Cyfleusterau (Rheolwyr, Goruchwylwyr / Gofalwyr)
- Rheolwr y Dderbynfa
- Wardeiniaid Tân
- Swyddogion Cymorth Cyntaf
- Bydd holl aelodau'r Tîm Diogelwch Tân yr Adeilad yn cael eu hadnabod gan siacedi/cotiau amlwg (Oren ar gyfer Rheolwyr Llawr, Melyn ar gyfer Wardeniaid Tân / swyddogion cymorth cyntaf).

### Rôl yr 'Unigolyn sy'n Gyfrifol'

Y Tîm Cyfleusterau yw'r prif ymatebwyr y byddai disgwyl iddynt fel arfer reoli digwyddiad larwm tân a gwagio'r adeilad.

Ar adegau, mae'n ofynnol i'r tîm Cyfleusterau weithio mewn adeiladau/lleoliadau eraill, felly mae'n bosibl y bydd y Staff Cyfleusterau oddi ar y safle pan fydd larwm tân yn digwydd.

## Cynllun Argyfwng Swyddfeydd Caledfryn (Byr) 22-11-15

Mae'r **Unigolyn sy'n Gyfrifol** felly yn rôl ac nid yn unigolyn a enwir a bydd yn amrywio yn ôl argaeledd, gweithgareddau gwaith ac amser o'r dydd ond yn gyffredinol bydd yn:-

- Aelod o Dîm Rheoli Cyfleusterau neu
- Rheolwr y Dderbynfa / Uwch Aelod o staff neu
- (Tîm Diogelwch Tân yr Adeilad)

### Yr Unigolyn sy'n Gyfrifol - Camau Gweithredu mewn Argyfwng

Pan fydd larwm tân, bydd yr **Unigolyn sy'n Gyfrifol** yn mynd at y panel larwm tân yn y dderbynfa i ganfod lleoliad y tân. Bydd diagram parth wrth ymyl y panel larwm yn cysylltu'r parth tân a nodir â chynllun yr adeilad.

Mae'r system larwm tân hefyd yn cael ei monitro (24/7) gan ganolfan derbyn larymau a fydd yn ffonio **Deiliaid Allwedd** i rybuddio bod y larwm tân yn canu.

Bydd yr **Unigolyn sy'n Gyfrifol** neu ddirprwy penodedig yn ymchwilio i leoliad y tân a ganfuwyd i gadarnhau bod y digwyddiad yn dân go iawn neu'n gamrybudd.

Os bydd arwyddion tân yn cael eu cadarnhau (fflamau, mwg, arogleuon llosgi, gwres sylweddol) bydd yr **Unigolyn sy'n Gyfrifol yn ffonio 999** i ofyn am gymorth y Gwasanaeth Tân ac i roi unrhyw fanylion hysbys am y tân.

Bydd yr **Unigolyn sy'n Gyfrifol** yn aros wrth banel y larwm tân (os yw'n ddiogel gwneud hynny) ac yn cydlynu'r holl weithgareddau gyda gweddill y Tîm Diogelwch Tân. Efallai y byddant yn neilltuo dyletswyddau i unrhyw un o'r Tîm Diogelwch Tân sydd ar gael yn unol â natur yr argyfwng.

Bydd yr **Unigolyn sy'n Gyfrifol** yn cysylltu â'r Diffoddwyr Tân wrth iddynt gyrraedd yr adeilad i roi manylion am y tân, adrodd ar statws gwagio'r adeilad ac unrhyw beryglon y mae angen iddynt fod yn ymwybodol ohonynt.

Byddant yn sicrhau bod y ffolder tân safle/pecyn mewn argyfwng ar gael i'r Uwch Swyddog Tân.

Bydd yr unigolyn sy'n gyfrifol yn cyfathrebu â'r Rheolwyr Llawr yn y man ymgynnull i ddweud a yw'n ddiogel i bobl fynd yn ôl i mewn i'r adeilad neu a oes angen mwy o gamau gweithredu wrth gefn.

# Cynllun Argyfwng Swyddfeydd Caledfryn (Byr) 22-11-15

## Rheolwyr y Dderbynfa / Uwch Aelod o staff -

Pan fydd larwm tân yn canu, dylai Rheolwr y Dderbynfa neu uwch aelod o staff fynd at y Panel Tân i gysylltu â'r **Unigolyn sy'n Gyfrifol**. Efallai y bydd angen iddynt gynorthwyo'r **Unigolyn sy'n Gyfrifol**. Os nad oes eu hangen, byddant yn mynd at y man ymgynnull i gyfeirio a chydlynu gweithgareddau staff.

Os na fydd Rheolwr y Tîm Cyfleusterau ar y safle, bydd uwch aelod o staff neu warden tân yn ymgymryd â'r rôl dros dro ac yn cyflawni dyletswyddau'r **Unigolyn sy'n Gyfrifol**.

Yn y man ymgynnull, bydd uwch aelodau o staff/Wardeniaid Tân yn sicrhau bod pawb yn aros yn ddiogel yn y man ymgynnull, a lle bo'n bosibl yn coladu galwadau'r gofrestr a gwybodaeth arall i nodi unrhyw bobl sydd ar goll neu nad oes cyfrif amdanynt.

Byddant yn cyfathrebu unrhyw wybodaeth berthnasol yn ôl i'r **Unigolyn sy'n Gyfrifol** a rhoi gwybod i bawb sydd wrth y man ymgynnull am bopeth sy'n digwydd.

## Wardeiniaid Tân

Cyn gynted â bod y larwm tân yn cael ei ganu, bydd y Wardeiniaid Tân yn annog pob cydweithiwr i adael yr adeilad mor gyflym a thawel â phosibl.

Byddant yn gwirio'r holl fannau a neilltuwyd i sicrhau bod pawb wedi gadael yr adeilad ac, os yw'n berthnasol, yn casglu'r byrddau arwyddo i mewn/allan.

**Byddant yn cau** ffenestri a drysau ble bynnag y bo modd yn eu hardal ddynodedig.

**Byddant yn gadael** yr adeilad a rhoi gwybod i'r **Unigolyn sy'n Gyfrifol** cyn gynted â phosibl o'u statws gadael ar gyfer eu llawr / ardal ddynodedig.

**Byddant yn cynorthwyo'r** **Unigolyn sy'n Gyfrifol** gydag unrhyw weithgareddau pellach y gofynnir amdanynt.

Sylwer: Rhaid i bob warden tân sy'n bresennol ar adeg gwagio'r adeilad adrodd i'r Unigolyn sy'n Gyfrifol er mwyn trosglwyddo unrhyw wybodaeth berthnasol.

# Cynllun Argyfwng Swyddfeydd Caledfryn (Byr) 22-11-15

## Holl staff

Dylid gwneud unrhyw waith sydd ar y gweill yn ddiogel.

Sicrhau bod pob ffenestr a drws tân ar gau lle a phryd bynnag y bo modd.

Dilyn y cyfarwyddiadau gwagio'r adeilad a gadael yr adeilad ar hyd y ffordd ddiogel agosaf.

Dylid ymgynnull yn y man ymgynnull a nodwyd yn y maes parcio cefn ac aros am gyfarwyddiadau pellach.

Dylid rhoi gwybod ar unwaith i uwch aelod o staff neu Warden Tân am unrhyw unigolion nad oes cyfrif amdanynt.

## Swyddogion Cymorth Cyntaf

Gofynnir i Swyddogion Cymorth Cyntaf hyfforddedig gario pecynnau/cyflenwadau cymorth cyntaf gyda nhw pan fyddant yn gadael yr adeilad a bod yn barod i roi cymorth cyntaf os oes angen yn y man ymgynnull.

Rhaid rhoi gwybod am unrhyw anafiadau a geir yn ystod gwagio'r adeilad i uwch aelod o Staff neu Warden Tân yn y man ymgynnull.

Bydd yr unigolion sydd wedi cael anaf yn cael eu monitro ac os bydd angen gofynnir am Barafeddygon trwy alwad brys 999.

## Cynlluniau wrth gefn

### Gwagio'r Adeilad Ymhellach

Fel mesur tymor byr, disgwylir i bobl sydd wedi gadael yr adeilad aros yn y man ymgynnull tân hyd nes rhoddir cyfarwyddiadau pellach iddynt.

Os mai camrybudd yw'r larwm tân, mae'n debygol y bydd aelodau o staff yn cael dychwelyd i'r adeilad unwaith y bydd yr **Unigolyn sy'n Gyfrifol** yn fodlon ei fod yn ddiogel i wneud hynny.

Os nad yw'r digwyddiad larwm tân yn debygol o gael ei ddatrys yn gyflym neu os yw'n dywydd garw, bydd aelodau staff yn cael gwybod am lety arall sydd ar gael neu'n cael eu hanfon gartref.



# Cynllun Argyfwng Swyddfeydd Caledfryn (Byr) 22-11-15

## Digwyddiad mawr

Os bydd digwyddiad mawr yn cael ei ddatgan gan y Gwasanaeth Tân, bydd yr **Unigolyn sy'n Gyfrifol** yn cysylltu â'r Landlord Corfforaethol/Uwch Dîm Arweinyddiaeth er mwyn iddynt allu cychwyn Cynllun Parhad Busnes y Sir.

Bryd hynny bydd yr **Unigolyn sy'n Gyfrifol** yn cau'r adeilad ac yn anfon staff gartref neu i weithio mewn lleoliad arall.

## Cyflenwad Pŵer yn methu

Mae rhai o'r goleuadau brys wedi'u goleuo'n barhaol. Os bydd y cyflenwad pŵer yn methu, bydd pob golau brys yn cael eu troi ymlaen. Bydd hyn yn darparu digon o oleuadau lefel isel i helpu i ddianc o'r adeilad.

Pan fydd larwm yn canu ni ddylid defnyddio/gweithredu'r lifft. Os yw'n cael ei ddefnyddio ar adeg y bydd y cyflenwad pŵer yn methu bydd y lifft yn gostwng i'r llawr gwaelod, yn agor y drysau a bydd defnydd yn cael ei atal.

## Trefniadau Tân Cyffredinol

### System Darganfod Tân a Larymau Tân

Mae'r system darganfod tân a larwm yn cael eu gwirio'n weledol bob dydd a'u profi'n wythnosol (Dydd Mercher 10:00 o'r gloch) gyda'r canlyniadau'n cael eu cofnodi yn llyfr log y system larwm tân. Rhoddir gwybod ar unwaith i ddarparwr y larwm am bob nam drwy Ddesg Gymorth Gwasanaethau'r Adeilad a chaiff diffygion eu cywiro cyn gynted ag y bo'n ymarferol gan ddarparwr y gwasanaeth larwm.

### System Goleuadau Brys

Mae'r system goleuadau brys (goleuadau a gynhelir, blychau golau wedi'u harwyddo, goleuadau swmp) yn cael eu profi'n fisol a chofnodir y canlyniadau yn llyfr log y system larwm tân. Hysbysir Desg Gymorth Gwasanaethau'r Adeilad ar unwaith am unrhyw namau a chaiff namau eu cywiro cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

# Cynllun Argyfwng Swyddfeydd Caledfryn (Byr) 22-11-15

## Trefniadau ar gyfer atal tân:

Mae'r adeilad wedi'i ddylunio a'i adeiladu i ohirio lledaeniad tân a mwg gyda rhannau tân wedi'u gwahanu gan ddrysau gwrthsefyll tân a waliau pared.

Rhaid cadw pob drws tân ar gau i atal tân a mwg rhag lledaenu.

## Dulliau Gwagio'r Adeilad a Llwybrau Gadael yr Adeilad

Mae digon o allanfeydd tân i ddarparu allanfeydd brys o bob rhan o'r adeilad.

Mae'r allanfeydd tân wedi'u lleoli i ganiatáu allanfa frys mewn mwy nag un cyfeiriad o bob ardal.

Mae'r ddau set o risiau dihangfa dân yn ffyrdd diogel o ddianc.

Mae'r holl ddrysau allanfa dân wedi'u nodi'n glir gydag arwyddion gwagio'r adeilad cyfeiriadol mewn argyfwng, wedi'u goleuo'n ddigonol ac wedi'u gosod â dyfeisiau agor drws unigol priodol.

Mewn achos o Larwm Tân / Gwagio'r Adeilad, ni ddylid defnyddio'r lifft.

Os bydd y larwm tân yn canu, bydd yr holl ymwelwyr a chontractwyr yn gadael yr adeilad ar unwaith gan ddefnyddio'r allanfa frys ddiogel agosaf ac yn gwneud eu ffordd i'r man ymgynnull yng nghefn yr adeilad.

Wrth baratoi ar gyfer argyfwng, cynhelir ymarferion gwagio'r adeilad mewn achos o dân yn rheolaidd. Bydd cofnodion o ymarferion yn cael eu cynnal.

Mae pob llwybr dianc a drysau allanfa dân yn cael eu gwirio am gyflwr, gweithrediad cywir a chadw tŷ bob wythnos. Caiff y gwiriadau eu cofnodi a chymerir camau unioni ar unwaith lle bo angen.

## Cynllun Personol Gadael Mewn Argyfwng (PEEP)

Mae gan bob unigolyn y nodir bod angen cymorth arno Gynllun Personol Gadael Mewn Argyfwng sy'n manylu ar eu hanghenion cymorth unigol a'u galluoedd.

Mae'r Cynllun Personol Gadael mewn Argyfwng yn manylu ar y ffyrdd gorau o adael yr adeilad (cerdded â chymorth, cadair olwyn, cadair achub ac ati) ac mae wedi'i lleoli yn ffolder tân y safle er gwybodaeth.

Mae cadeiriau achub ar gael ac wedi'u lleoli ym mhob grisiau diogel ar Lefel 2.

# Cynllun Argyfwng Swyddfeydd Caledfryn (Byr) 22-11-15

## Man Ymgynnull Brys:

Y man ymgynnull brys ar gyfer pawb sy'n gadael yr adeilad yw'r maes parcio cefn.

Bydd yr Unigolyn sy'n Gyfrifol, yr uwch aelod o staff neu'r Warden Tân yn galw'r gofrestr yn y man ymgynnull lle bynnag y bo modd.

## Trefniadau ar gyfer diffodd tân:

Darperir amrywiaeth o ddiffoddyddion tân (dŵr/ewyn, carbon deuocsid a blancedi tân) fel offer diffodd tân.

Mae diffoddyddion tân wedi'u lleoli ledled y safle ac mae eu lleoliadau wedi'u nodi ar gynllun y safle.

Mae Wardeiniaid Tân yn cael cyfarwyddyd i ddefnyddio diffoddyddion tân trwy hyfforddiant ymwybyddiaeth tân a chysiau hyfforddi ymarferol.

Os yw'n ddiogel gwneud hynny, gall unrhyw unigolyn hyfforddedig sy'n darganfod y tân geisio diffodd y tân gan ddefnyddio diffoddyddion tân priodol.

Damperi Mwg: Mae damperi mwg yr uned trin Aer yn canu'n awtomatig pan fydd y larwm tân yn canu, gellir dod o hyd i'r botwm ailosod a switshis Dynion Tân wrth ymyl y prif Banel larwm tân.

Mae gan yr Adeilad system echdynnu mwg/nwy awtomatig sy'n cael ei ganu'n awtomatig pan fydd y larwm tân yn canu, mae'r botwm gwrthwneud i'w weld ar y panel rheoli sydd wedi'i leoli wrth ymyl y prif banel larwm tân yng nghyntedd y prif dderbynfa.

## Dyluniadau o'r cyfleuster:

Mae dyluniadau o'r safle wedi'u lleoli yn ffolder tân y safle ac mae **'pecyn mewn argyfwng'** wedi'i leoli mewn locer gyferbyn y prif banel larwm tân.

Mae'r dyluniadau'n nodi cynllun y cyfleuster, y llwybrau dianc, yr allanfeydd tân, y grisiau, y dull o ddiffodd tân ac ati.

## Pwyntiau ynysu nwy, trydan, dŵr

**Trydan** - Mae ynysu pŵer prif gyflenwad yn yr adeilad derbyn trydan allanol y tu ôl i'r adeilad. Mae allweddi'r adeilad hwn wedi'u lleoli yn swyddfa'r Gofalwr.

## **Cynllun Argyfwng Swyddfeydd Caledfryn (Byr) 22-11-15**

**Nwy** - Mae'r prif bwynt ynysu nwy wedi'i leoli yng nghwprdd bach nwy allanol ar ochr yr adeilad. Mae allweddî'r cwprdd bach hwn wedi'u lleoli yn swyddfa'r Gofalwr.

**Dŵr** - Mae cyflenwadau dŵr agored wedi'u lleoli yn y prif gyflenwad dŵr ar wahân ar y ffordd ger mynedfa cerbydau'r maes parcio cefn.

Mae'r holl bwyntiau ynysu wedi'u nodi ar y cynllun adeiladu er gwybodaeth i'r Gwasanaeth Tân.

### **Manylion Cyswllt Cynllun Parhad Mewn Argyfwng**

#### **RHIFAU / GWYBODAETH GYSWLLT MEWN ARGYFWNG**

**Y GWASANAETHAU BRYS** - '999'

**Heddlu Gogledd Cymru:** - 0845 607 1001

**Galw Iechyd Cymru:** - 0845 46 47

**Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru (Diogelwch Tân)-** 0800 169 1234

#### **CWMNIAU CYFLEUSTODAU / ALLANOL**

**Scottish Power/MANWEB:** - 0800 001 5400

**Dŵr Cymru (Llinell Gollyngiad):** - 0800 052 0130

**Unrhyw Olyngiad Nwy (Cymru a'r Gorllewin)-**0800 111 999

**LPG (Flo Gas)** - 0345 720 0100

**Knowsley Lift Services** - 0151 286 1322

#### **RHIFAU CYNGOR SIR DDINBYCH MEWN ARGYFWNG**

**Llinell Gymorth Cyngor Sir Ddinbych mewn Argyfwng** - 01745 538414

**Tu Allan i Oriau Swyddfa** -

**Adran Iechyd a Diogelwch Corfforaethol:** - 01824 712541 / 2516 / 2517

## **Cynllun Argyfwng Swyddfeydd Caledfryn (Byr) 22-11-15**

<b>Desg Gymorth Gwasanaethau'r Adeilad:</b>	-	<b>01824 706893</b>
<b>Rheolwr Cyfleusterau:</b>	-	<b>01824 706748 / 07810 758978</b>
<b>Uwch Oruchwyliwr Safle:</b>	-	<b>01824 706198 / 07733 012426</b>
<b>Goruchwyliwr Safle: (CALEDFRYN)</b>	-	<b>01824 706817 / 07748 148238</b>